Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Mawrth 2020

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Mawrth 2020 ynghylch yr adolygiad o drefniadau cyllido ysgolion a gynhelir gan Luke Sibieta.

Yn dilyn cyfatebiaeth â'r Undebau Llafur ar 6 Chwefror, mae cynrychiolwyr o'r Undebau wedi cynnal cyfarfod arall â'm swyddogion ac wedi mynd i gyfarfod â Luke Sibieta hefyd. Mae Luke wedi cyfarfod â chynrychiolwyr unigol o'r Undebau hefyd yn ôl eu cais. Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad y grŵp pwysig hwn o randdeiliaid at yr adolygiad o drefniadau cyllido ysgolion, ac rydym wedi ymrwymo i barhau â'r trafodaethau hyn.

Fel imi ddweud o'r blaen, nid oes y fath beth ag ysgol gyffredin, maent yn gwahaniaethu'n sylweddol o ran ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar eu costau. Roeddwn wedi cytuno bod gwerth adolygu natur y gwariant a amlinellir yn argymhelliad 1. Bydd dadansoddiad Luke o'r modd y mae cyfanswm y gwariant, a'r gwariant ar wahanol gategorïau o fewnbynnau'n gwahaniaethu ar draws ysgolion o dan amgylchiadau penodol yn helpu i bennu a oes gan ysgolion a disgyblion o dan wahanol amgylchiadau lefelau digonol o gyllid, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hynny'n cynnwys rhagdybiaethau clir am gostau gwahanol fewnbynnau a newidynnau a fydd yn sail i allu gwneud cynigion manwl ar gostau addysg. Bydd hynny'n helpu'r rheini sy'n gwneud polisïau i bennu a oes gan ysgolion mewn gwahanol amgylchiadau ddigon o gyllid, a'r ffordd orau o dargedu unrhyw gynnydd mewn gwariant. Yn ogystal, bydd hefyd yn cynnwys amcangyfrifon penodol o gostau pwysau ar ysgolion yn y dyfodol.

Yn ychwanegol at argymhelliad 1, bydd yr adolygiad o drefniadau cyllido ysgolion hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgor, ac mae'n ddarn o waith gwerthfawr sy'n parhau i ddatblygu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn cydweithio'n agos â Luke, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Cawn ein harwain gan eu barn arbenigol nhw. Mae'n bwysig hefyd nad ydym yn rhagdybio canfyddiadau'r adolygiad.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am fanylion gwaith Luke hyd yma, mae e'n hapus i gyfarfod â chi i roi gwybod y diweddaraf ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych – yn enwedig o ran y mater o gael tystiolaeth am faint o gyllid sydd ei angen sy'n ddigonol i gyllido ysgolion.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education